Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION
## Gweithgor
## Dydd Mawrth, 4 Mawrth 2025
**(Y Ganolfan Ddinesig)**

## N O D I A D A U

**PRESENNOL:**
Stuart James (Afon Taf)
Owen Morgan (Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa)
Rhiannon Stephens-Davies (Ysgol Arbennig Greenfield)
Simone Roden (Ysgol Gynradd Gymunedol Ynysowen) - Cadeirydd
Alwen Bowen (Ysgol Rhyd y Grug)
Anthony Lewis (Pennaeth Cynllunio, Cymorth ac Adnoddau Ysgolion)

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Louise Ballinger (Cyfrifydd Addysg)
Joanna Lewis (Rheolwr Rheolaeth Leol Ysgolion)
Emma France (Clerc y Fforwm)

| Rhif | Trafodaeth/Gweithredu |
|---|---|
| 1. | **Ymddiheuriadau**<br>Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan James Voros a Sarah Hopkins. |
| 2. | **Gwasanaethau Eiddo Cytundeb Lefel Gwasanaeth / Trwsio a Chynnal**<br>Rhoddodd AL bapur i aelodau yn amlinellu cyfrifoldeb yr ysgol / yr Awdurdod Lleol mewn perthynas ag ymholiadau a godwyd yn flaenorol, copi o'r cofnodion yn amlinellu'r adolygiad cronfa gydfuddiannol o 2015 ac Atodiad 4 o'r cynllun cyllido teg yn amlinellu cyfrifoldeb yr ysgol.<br><br>Amlinellodd AL yr anghysondebau presennol yn y ddogfennaeth gydag argymhellion arfaethedig:<br><br>A. **Legionella**<br>Mae'r ddogfen Cyfrifoldebau / CIPFA yn nodi:<br><br>a. Codi tâl am asesiadau risg ar yr Awdurdod Lleol a chodi tâl am wasanaethu'r tanc ar ysgolion - sy'n digwydd yn gywir.<br>b. Nid oes unrhyw sôn yn cael ei wneud am brofion misol neu lanhau'r tanc, ond mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y ddogfen Cytundeb Lefel Gwasanaeth:<br>- Glanhau tanc – Yr Awdurdod Lleol (codir tâl am y gwaith hwn ar yr Awdurdod Lleol yn y modd cywir).<br>- Profion misol - Ysgolion (codwyd tâl ar ysgolion yn flaenorol ond ers 2015/16 codwyd tâl ar yr Awdurdod Lleol. Y gost flynyddol yw rhyw £6,000 y flwyddyn).<br>c. Mae gwaith sy'n deillio o asesiadau risg Legionella ar hyn o bryd yn gymysg. Mae'r tâl am beth o'r gwaith yn cael eu codi ar ysgolion tra bod y tâl am rannau eraill o'r gwaith yn cael ei godi ar yr Awdurdod Lleol (fel glanhau'r tanc). |

| Rhif | Trafodaeth/Gweithredu |
|---|---|
| | Mae Chris yn adolygu'r rhesymau dros y gwahaniaeth mewn codio rhwng yr Awdurdod Lleol a'r ysgol. Mae'n bosib bod y sefyllfa'n newid fesul achos. Mae'n bosib bod y tâl am rywfaint o'r gwaith sy'n cael ei godi ar yr Awdurdod Lleol, yn diybynnu ar natur y gwaith sydd angen ei wneud.<br><br>Argymhellion<br>1. Mae angen diweddaru'r ddogfen Cyfrifoldeb / CIPFA er mwyn cadarnhau mai cyfrfoldeb yr Awdurdod Lleol yw'r gwaith o lanhau'r tanc.<br>2. Mae angen diweddau'r dogfennau Cyfrifoldeb a Chytundeb Lefel Gwasanaeth i adlewyrchu mai cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol yw'r profion misol.<br>3. Mae angen cadarnhau beth yw safbwyt yr Awdurdod Lleol parthed gwaith sy'n deillio o asesiadau risg Legionella a manylion yn y ddogfen Cod Arfer ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol yn Lleol yn y Deyrnas Unedig yn ôl yr angen.<br><br>**B. Unedau trin aer ar y to**<br>a. Mae'r ddogfen Cyfrifoldebau / CIPFA yn nodi bod:<br>- Yr Awdurdod Lleol yn gyfrifol am wasanaethu ac arolygu unedau trin aer ar doeon<br>- Yr ysgol sy'n gyfrifol am wasanaethu ac arolygu systemau aerdymheru<br>b. Fodd bynnag, mae'r ddogfen Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn nodi mai ysgolion sy'n gyfrifol am y ddau<br>c. Mae'r cynllun dirprwyo yn nodi bod ysgolion yn 'gyfrifol am atgyweirio, ailosod unedau awyru mecanyddol a hefyd darparu unedau lleol'.<br>d. Mae tâl wedi cael ei godi ar ysgolion yn gyson am y ddwy elfen ac mae codi tâl ar ysgolion yn gyson ag argymhellion adolygiad y Gronfa Gydfuddiannol o 2015-16.<br><br>Argymhellion<br>1. Mae angen diweddaru'r ddogfen Cyfrifoldeb / CIPFA i adlewyrchu bod unedau trin aer ar doeon yn gyfrifoldeb i'r ysgolion.<br><br>**C. Falfiau Cymysgydd Thermostatig (TMVs yw'r talfyriad Saesneg)**<br>a. Mae'n ymddangos bod tâl yn cael ei godi ar ysgolion bob amser am y Falfiau Cymysgydd Thermostatig ond mae'r ddogfen CIPFA a'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ill dau yn nodi mai'r Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol (mae'r gost flynyddol tua £4,000 y flwyddyn).<br>b. Mae Gwasanaethau Eiddo yn cynghori nad oes unrhyw reswm amlwg dros hwn ac y dylid codi tâl ar ysgolion gan fod hwn yn rhan o wasanaethu.<br><br>Argymhellion<br>1. Mae angen diweddaru'r ddogfen Cyfrifoldeb / CIPFA a'r ddogfen Cytundeb Lefel Gwasanaeth er mwyn adlewyrchu mai cyfrifoldeb yr ysgol yw'r Falfiau Cymysgydd Thermostatig (**TMVs**).<br><br>**D. Larymau Tân**<br>a. Mae dogfen Hen Gyfrifoldebau/ CIPFA yn nodi mai'r Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am fonitro, arolygu a gwasanaethu - ni wneir unrhyw gyfeiriad o gwbl yn y ddogfen Cyfrifoldeb / CIPFA cyfredol.<br>b. Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn nodi mai'r ysgolion sy'n gyfrifol. |

| Rhif | Trafodaeth/Gweithredu |
|---|---|
| | c. Mae'r cynllun dirprwyo yn nodi bod yr Awdurdod Lleol yn gyfrifol am 'ddarparu' ond mai ysgolion sy'n gyfrifol am drwsio a chynnal.<br>d. Codwyd tâl am gostau ar gymysgedd o ysgolion a'r Gronfa Gydfuddiol tan 2015, ond o 2015 ymlaen codwyd tâl am y costau ar yr ysgolion yn unig. Mae costau wedi cael eu codi ar gymysgedd o ysgolion / y Gronfa Gydfuddiol tan 2015, a'r ysgolion o 2015 ymlaen.<br><br><u>Argymhellion</u><br>1. Ychwanegwch linell yn ôl i mewn i'r ddogfen Cyfrifoldeb / CIPFA yn nodi mai'r ysgol sy'n gyfrifol am wasanaethu/arolygu larymau tân.<br><br>**E. <u>Dargludyddion Goleuadau</u>**<br>a. Mae'r ddogfen Hen Gyfrifoldeb / CIPFA yn nodi mai'r Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am arolygu a phrofi dargludyddion, tra bod y ddogfen Gyfrifoldeb / CIPFA gyfredol yn nodi mai'r ysgol yn gyfrifol.<br>b. Codwyd tâl ar ysgolion bob tro am wasanaethu, ac mae hwn hefyd yn unol ag adolygiad y Gronfa Gydfuddiol.<br>c. Nid yw'r cynllun dirprwyo yn gwneud cyfeiriad penodol, ond ystyrir bod gwasanaethu yn gynnal a chadw hanfodol, sy'n dod o dan Trwsio a Chynnal.<br>d. Fodd bynnag, cynghorwyd gan Wasanaethau Eiddo bod yr Awdurdod Lleol yn gyfrifol am ailosod dargludyddion goleuadau.<br><br><u>Argymhellion</u><br>1. Mae angen newid y ddogfen Gyfrifoldeb / CIPFA i adlewyrchu mai cyfrifoldoeb yr Awdurdod Lleol yw ailosod Dargludyddion Goleuadau tra bod yr ysgolion yn gyfrifol am eu gwasanaethu / eu harolygu yn hytrach na bod yr holl gostau'n cael eu codi ar yr ysgolion.<br><br>**F. <u>Ystyriaethau eraill</u>**<br>Mae'r ddogfen Gyfrifoldeb / CIPFA yn gofyn am adolygiad pellach i sicrhau ei bod yn adlewyrchu technolegau newydd ac yn cael ei symleiddio fel ei bod yn llai amwys.<br><br>Mae'r fformiwla ariannu a ddarperir i ysgolion ar gyfer cytundebau gwasanaethu o fewn ei ddyraniad Trwsio a Chynnal hefyd yn gofyn am adolygiad i sicrhau dosbarthiad teg o arian sy'n adlewyrchu'r gwahanol lefelau o ofynion gwasanaethu a chostau ar gyfer technolegau newydd ar gyfer gwahanol adeiladau.<br><br><u>Argymhellion</u><br>1. Mae'r uchod i'w adolygu ymhellach ar gyfer newidiadau i'w gweithredu o bosibl o fis Ebrill 2026.<br><br>Tynnodd AL sylw at yr argymhellion cyffredinol.<br><br>**<u>Argymhellion Cyffredinol</u>**<br>1. Rhaid newid y ddogfen Gyfrifoldeb / CIPFA i ddangos mai cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol yw glanhau tanciau. |

| Rhif | Trafodaeth/Gweithredu |
|---|---|
| | 2. Rhaid newid y ddogfen Gyfrifoldeb / CIPFA i adlewyrchu mai'r Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am brofion misol.<br>3. Cynnwys safbwynt a gadarnhawyd gan yr Awdurdod Lleol ynghylch gwaith sy'n deillio o asesiadau risg Legionella a manylion yn y ddogfen Cyfrifoldeb/CIPFA yn ôl yr angen.<br>4. Rhaid newid y ddogfen Gyfrifoldeb / CIPFA i adlewyrchu mai cyfrifoldeb ysgolion yw unedau trin aer ar doeon.<br>5. Rhaid newid y ddogfen Gyfrifoldeb / CIPFA i adlewyrchu mai cyfrifoldeb yr ysgolion yw'r Falfiau Cymysgydd (TMVs).<br>6. Ychwanegwch linell yn ôl i mewn i'r ddogfen Cyfrifoldeb / CIPFA sy'n nodi mai'r ysgol sy'n gyfrifol am wasanaethu/arolygu larymau tân.<br>7. Rhaid newid y ddogfen Gyfrifoldeb / CIPFA i adlewyrchu mai cyfrifoldoeb yr Awdurdod Lleol yw amnewid Dargludyddion Goleuadau tra bod yr ysgolion yn gyfrifol am eu gwasanaethu / eu harolygu yn hytrach na bod yr holl gostau'n cael eu codi ar yr ysgolion.<br>8. Adolygiad o'r ddogfen Cyfrifoldeb/CIPFA i adlewyrchu technolegau newydd ac adolygiad o'r fformiwla gyllid ar gyfer Trwsio a Chynnal i adlewyrchu costau gwasanaethu/technolegau newydd sy'n ofynnol mewn gwahanol adeiladau, i'w gweithredu o fis Ebrill 2026 ymlaen.<br><br><u>Cwestiynau / Sylwadau</u><br>**SR: Beth yw'r cyfrifoldebau statudol? Trwy'r ddogfen hon rwy'n gweld sawl pwynt nad sy'n gyfrifoldeb statudol yr Awdurdod Lleol. Ymhle gallwn gael gafael ar restr o gyfrifoldebau statudol yr Awdurdod Lleol? Dywedir wrthym yn gyson nad yw'n gyfrifoldeb statudol yr Awdurdod Lleol, ond am beth mae'r ALl yn gyfrifol? Rydym eisiau dogfen glir sy'n amlinellu cyfrifoldebau statudol yr Awdurdod Lleol.**<br>AL: Byddai angen i CJ ateb hynny.<br><br>**SR: Does dim rhestr glir o gyfrifoldebau statudol yr Awdurdod Lleol?**<br>AL: Nag oes, nid yn ôl yr hyn rwy'n ymwybodol ohono yn dilyn y trafodaethau ges i gyda Chris. Mae'r cynllun dirprwyo yn amlinellu cyfrifoldebau'r ysgol i gynnal a chadw'r safle. Os ydym yn ymwybodol bod ysgol yn mynd i adfeilion, gallem orfodi'r gwaith adfer angenrheidiol a chodi tâl ar yr ysgol.<br><br>**SR: A oes unrhyw beth nad yw'r ysgol yn gyfrifol amdano?**<br>AL: Y profion trydanol pum mlynedd a'r asesiadau risg Legionella am fod y cyllidebau ar gyfer y rhain bob amser wedi cael eu cadw gan yr awdurdod lleol.<br><br>**SR: Beth o ran y gyllideb sydd wedi'i ddirprwyo i'r ysgol ond sy'n gyfrifoldeb Awdurdod Lleol?**<br>AL: Mae'r cynllun dirprwyo yn caniatáu i'r Awdurdod Lleol ddirprwyo cyfrifoldebau i'r ysgol. Defnyddiwyd hwn fel sail i'r ddogfen gyfrifoldebau cyfredol.<br><br>Cylchredwyd copi o Atodiad 4 i'r aelodau.<br><br>Amlinellodd SJ bryderon er enghraifft ynghylch ei system chwistrellu dŵr a'r gwaith o'i wasanaethu.<br><br>AL: Rydym wedi trafod hwn gyda Chris a bydd angen i ni ystyried y costau llawn a pha mor aml y mae angen gwasanaethu'r gwahanol systemau a gallwn ystyried a ddylai'r Awdurdod |

| Rhif | Trafodaeth/Gweithredu |
|---|---|
| | Lleol gadw rhywfaint o'r cyfrifoldeb gwasanaethu yn ganolog a bod ysgolion yn cael eu hariannu'n briodol ar gyfer y costau gwasanaethu sy'n weddill.<br><br>AL: Mae angen gwaelodlin newydd arnom.<br><br>**AL: A ydym yn hapus i fynd â'r argymhellion ar bapur i'r Fforwm Ysgol llawn ar y 18fed o Fawrth?**<br>SR: Dal i bryderu am rywfaint o'r amwysedd, a ydyw'r un peth mewn Awdurdodau Lleol eraill.<br><br>AL: Mae'n gymysg ledled Cymru, yn RhCT nid ydynt yn dirprwyo i lefel debyg ac maent yn cadw'r gyllideb yn ganolog.<br><br>SR: Nid wyf yn erbyn hynny, fel un o'r argymhellion a gyflwynwyd gennym i'r Fforwm Ysgolion.<br><br>AL: Gall hynny fod yn un o'r modelau rydyn ni'n eu hystyried fel opsiwn yn y gwaith parhaus i ddiweddaru'r ddogfen cyfrifoldebau ar gyfer technolegau newydd ac adolygu'r model dirprwyedig / cyllido ar gyfer Ebrill 2026.<br><br>Trafodaeth ynghylch talu gwaith cyn bod y gwaith yn cael ei wneud i foddhad ysgol, ansawdd gwael rhai o'r gwaith a'r isgontractwyr, a'r ffaith nad yw ysgolion yn derbyn dyfynbrisiau ar gyfer gwaith na chwaith yn cael gwybod pa gostau sy'n cael eu codi ar yr ysgol.<br><br>Roedd angen mecanwaith ar ysgolion i allu dal y contractwyr i gyfrif.<br><br>Trafodaeth ynghylch arolwg boddhad gwasanaeth cwsmeriaid - nodwyd bod y rhain yn cael eu hanfon at ysgolion ar gyfer gwaith sydd wedi'i gynllunio ond nid ydynt yn cael eu hanfon ar gyfer atgyweiriadau, a dyma'r elfen sy'n achosi pryder.<br><br><u>Argymhelliad</u><br>Cytunodd yr aelodau i dderbyn argymhellion 1-8 i'r Fforwm Ysgolion i fynd i'r afael ag anghysondebau mewn dogfennau cyfredol a chytuno ar ffrwd waith ar gyfer darn ehangach o waith ar gyfer Ebrill 2026.<br><br>Mae aelodau'n gofyn i CJ fynychu'r cyfarfod Fforwm Ysgol nesaf i amlinellu cynnydd y newidiadau y cytunwyd arnynt mewn trafodaethau Cytundeb Lefel Gwasanaeth ac ymholiadau a godwyd yng nghyfarfod mis Rhagfyr:<br><br>• Gwiriadau sampl – 10% o'r gwaith a wiriwyd, beth oedd chanlyniad gwiriadau? Ymateb i'r cwestiynau a godwyd yng nghyfarfod mis Rhagfyr.<br>• Peilot o ddwy ysgol sy'n gwirio anfonebau rhag-dalu.<br>• Arolwg boddhad gwasanaeth cwsmeriaid. Symleiddio a sicrhau ei fod ar gael ar-lein. |
| **3.** | **<u>Cymorth Ychwanegol – Cyllid</u>**<br>Cyflwynodd AL bapur drafft i'r gweithgor yn amlinellu model cyllido arfaethedig gan y gweithgor Anghenion Dysgu Ychwanegol.<br><br>Mae model dirprwyo drafft wedi'i ystyried sy'n darparu ysgolion gyda: |

| Rhif | Trafodaeth/Gweithredu |
|---|---|
| | • Dyraniad sylfaenol ar gyfer tair blynedd wedi'i gynnwys yn y cyllid fformiwla, wedi'i addasu'n flynyddol ar gyfer newidiadau i ddisgyblion sydd ag angen asesedig ar y gofrestr.<br>• Bydd yr asesiad sylfaenol o'r angen yn dyrannu categori CAM (Coch, Amber, Melyn ond RAY yw'r talfyriad Saesneg) i ddisgyblion a nodwyd ac yn cael ei ddefnyddio i agregu'r angen cyffredinol am gyllid Cymorth Ychwanegol.<br>• Bydd hwn yn cynnwys dyraniad ar gyfer dechreuwyr cyn-feithrin a ddisgwylir ym mis Ionawr / Ebrill a'u hanghenion hysbys.<br>• Defnyddio cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer disgyblion meithrin nad ydynt wedi cael eu hystyried mewn dyraniad drwy banel.<br>• Bydd y categoreiddio CAM yn cael ei ddefnyddio i ddyrannu ceisiadau panel blwyddyn ar gyfer disgyblion meithrin<br>• % ychwanegol wedi'i gynnwys mewn dyraniad ymlaen llaw i reoli gofynion eraill yn y flwyddyn.<br>• Bydd system gategoreiddio CAM yn cael ei ddefnyddio i ddyrannu cyllid ar gyfer gofynion disgyblion eraill sy'n cael eu rheoli yn ystod y flwyddyn, ar gyfer dyraniad y blynyddoedd canlynol.<br>• Asesiad sylfaenol diwygiedig o anghenion disgyblion bob tair blynedd, yn hytrach nag yn flynyddol. Manylion ynglŷn â'r broses er mwyn ystyried hwn ymhellach.<br>• Pob ysgol i gael adolygiad yn ystod y cylch tair blynedd ynghylch darpariaeth cymorth ychwanegol i ystyried defnydd effeithiol o adnoddau ac ystyried arfer da ac ati. Arfer da a nodwyd i'w rhannu ar draws y system. Mae angen ystyriaeth bellach ynglŷn â hwn.<br><br>**<u>Amserlen / proses ar gyfer dirprwyo Ebrill 2025-Ebrill 2028</u>**<br><br><u>Ebrill 2025</u><br>• Mae dyraniadau sylfaenol Medi 2024 wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r dyraniadau yn ystod y flwyddyn (Glas) sy'n cael eu hailddynodi yn CAM (Coch, Amber, Melyn).<br>• Mae hwn yn sail i'r dyraniadau dirprwyedig arfaethedig o fis Ebrill 2025.<br>• Bydd pob ysgol yn derbyn swm o arian yn y fformiwla yn seiliedig ar gategoreiddio CAM o ddisgyblion a chyfradd Cynorthwy-ydd Cefnogi Dysgu Lefel 3.<br><br><u>Ebrill 2026</u><br>• Ym mis Tachwedd 2025 mae'r rhestr ddisgyblion yn cael ei diweddaru i adlewyrchu'r disgyblion presennol ar y gofrestr a'r anghenion hysbys ar gyfer dechreuwyr cyn-feithrin Ionawr 2026/Ebrill 2026 yn seiliedig ar leoedd a ddyrannwyd.<br>• Nid yw hyn yn ailasesu anghenion ond mae'n adlewyrchu disgyblion sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd ym mlwyddyn 2025/2026.<br>• Mae'r disgyblion ar y gofrestr y mae dyraniad Ebrill 2026 yn seiliedig arnynt yn cael eu cwblhau gan ddefnyddio data **Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion**<br>(Ionawr 2026) a'r wybodaeth gyfredol ynglŷn â dechreuwyr Ebrill 2026.<br><br><u>Ebrill 2027</u><br>• Ym mis Tachwedd 2025 mae'r rhestr ddisgyblion yn cael ei diweddaru i adlewyrchu'r disgyblion presennol ar y gofrestr a'r anghenion hysbys ar gyfer dechreuwyr cyn-feithrin Ionawr 2026/Ebrill 2026 yn seiliedig ar leoedd a ddyrannwyd.<br>• Nid yw hwn yn ailasesu anghenion ond mae'n adlewyrchu disgyblion sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd ym mlwyddyn 2025/2026. |

| Rhif | Trafodaeth/Gweithredu |
|---|---|
| | • Mae'r disgyblion ar y gofrestr y mae dyraniad Ebrill 2026 yn seiliedig arnynt yn cael eu cwblhau gan ddefnyddio data **Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion** (Ionawr 2026) a'r wybodaeth gyfredol ynglŷn â dechreuwyr Ebrill 2026.<br><br>**<u>Ystyriaethau</u>**<br>**Beth am ddisgyblion newydd cyn-feithrin/meithrin?**<br>• Ym Mlwyddyn 1 (Ebrill 2025-Mawrth 2026) gellir dod ag anghenion ychwanegol ar gyfer disgyblion cyn-feithrin/meithrin i'r panel er mwyn ystyried dyraniad ychwanegol fel y mae ar hyn o bryd.<br>• Ym Mlwyddyn 2 (Ebrill 2026-Mawrth 2027) bydd dyraniadau wedi eu cynnwys o'r dechrau ar gyfer anghenion hysbys dechreuwyr meithrin Ionawr 2026/Ebrill 2026.<br>• Gellir gwneud dyraniadau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer disgyblion meithrin nad oes ganddynt angen a dechreuwyr newydd ym mis Medi 2026 a Ionawr 2027.<br>• Bydd holl ddyraniadau’r flwyddyn yn seiliedig ar feini prawf CAM.<br><br>**Beth am ddisgyblion newydd eraill yn y flwyddyn?**<br>• Bydd % ychwanegol yn cael ei ychwanegu at ddyraniad pob ysgol i reoli'r galw yn ystod y flwyddyn. Mae'r % hwn yn cael ei fodelu.<br>• Byddai disgwyl i ysgolion reoli gofynion sy’n digwydd o fewn blwyddyn (ac eithrio disgyblion meithrin) o'r dyraniad hwn.<br>• Byddai'r gofynion ychwanegol hyn o ddisgyblion yn cael eu hasesu gan Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn cysylltiad â'r ysgol ym mis Tachwedd i lywio dyraniad CAM priodol i'w gynnwys yn y dyraniad wedi'i addasu ym mis Ebrill 2026.<br>• Byddai'r addasiad hwn ar gyfer disgyblion newydd ar y gofrestr, yn cael ei wneud yn y dyraniad blynyddoedd canlynol (Blwyddyn 2) yn seiliedig ar **Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion** Ionawr 2026.<br>• Byddai dyraniad wedi ei ddiweddaru'r ysgol ar gyfer Ebrill 2026 (Blwyddyn 2) unwaith eto yn cynnwys % ychwanegol ar ei ben.<br><br>**Beth am ddisgyblion sydd â Chynllun Datblygu Personol gan yr Awdurdod Lleol sy'n derbyn cefnogaeth?**<br><br>• Byddai'r ALl yn cadw'r gyllideb hon (£1.4 miliwn) ond yn dyrannu arian i ysgolion fel y byddai ar hyn o bryd yn seiliedig ar yr angen a aseswyd ar hyn o bryd.<br>• Byddai gan bob ysgol ddau ddyraniad o’r Awdurdod Lleol bob mis Ebrill; un ar gyfer disgyblion â Chynllun Datblygu Unigol gan yr ALl (Cyllid yr Awdurdod Lleol wedi ei ddosrannu i ysgolion fel incwm) ac un ar gyfer disgyblion a chanddynt Gynllun Datblygu Unigol gan yr Ysgol / nad oes ganddynt Gynllun Datblygu Unigol (cyllid wedi ei ddirprwyo i ysglion ar ffurf nawdd fformiwla)<br>• Ar gyfer disgyblion sydd â Chynllun Datblygu Unigol gan yr ALl, gellir dod ag anghenion sy'n newid yn ystod y flwyddyn i'r panel.<br>• Bydd pob dyraniad panel yn seiliedig ar feini prawf CAM.<br>• Bydd yr anghenion hyn yn cael eu hadolygu ar gylchred tair blynedd yn yr un modd a’r drefn a fodolir ar gyfer disgyblion eraill.<br><br>**SR: A allwn ni gael rhywfaint o eglurhad ynglŷn â'r ganran a ychwanegwyd?** |

| Rhif | Trafodaeth/Gweithredu |
|---|---|
| | AL: Y ffigur arfaethedig yw 8.3% neu oddeutu £200,0000. Mae JL wedi edrych ar y galw mewn blwyddyn dros y cyfnod o dair blynedd ac 8.3% oedd yr uchaf dros y cyfnod.<br><br>**SR: A ellir cynnwys y ffigur hwn yn y papur?**<br>AL: Gellir, byddwn yn ei ddiwygio i adlewyrchu'r ffigurau. Mae'r dyraniad hwn yn ychwanegol at y gyllideb graidd ar gyfer 25/26 ac mae Gavin Metheringham wedi adolygu opsiynau i ariannu hyn o arian grant Anghenion Dysgu Ychwanegol cyn i hwn gael ei gynnwys yn y dyraniad sylfaenol ar gyfer 26/27 os caiff ei gymeradwyo.<br><br>**SR: A fydd y meini prawf / dyraniadau CAM yn dryloyw?**<br>AL: Byddant, bydd angen iddynt fod yn dryloyw er mwyn i hwn weithio fel model dirprwyedig.<br><br>**SR: A fydd mecanwaith i fynd i'r panel ar gyfer disgyblion anhysbys?**<br>AL: Bydd, bydd panel ar gyfer disgyblion sydd angen Cynllun Datblygu Unigol gan yr ALl a phlant meithrin nad oeddent wedi'u cynnwys yn y disgyblion hynny a fyddent yn cael eu cynnwys yn y sylfaen ar gyfer y flwyddyn ganlynol.<br><br>**SR: Pam cylchred o dair blynedd?**<br>**OM: Ychydig iawn o newid sydd pam ddim ar gyfer bywyd yr ysgol?**<br>AL: Bydd y system hon yn caniatáu adeiladu i mewn i'r bôn ac adolygu anghenion disgyblion. Trwy adeiladu am dair blynedd gallwn roi rhywfaint o sefydlogrwydd i'r system ar gyfer yr ysgol a chaniatáu i'r dyraniad cyllid fod yn Ddyraniad Fformiwla a rhyddhau dyraniad cyllid yn gynharach ac yn unol â gosodiad y gyllideb.<br><br>SJ: Fe wnaethon ni ystyried gwahanol gyfnodau amser, ond mae tair blynedd yn rhoi cyfle i adolygu.<br><br>**SR: Beth os yw disgybl yn y sylfaen ond bod ei anghenion yn newid?**<br>AL: Gellid ystyried hyn pan fydd y sylfaen yn cael ei diweddaru i adlewyrchu'r gofynion mewnol y mae'r ysgol wedi'u rheoli yn ystod y flwyddyn.<br><br>**SR: Beth os oes gan ddisgyblion Gynllun Datblygu Unigol gan yr ysgol ond bod angen Cynllun Datblygu Unigol gan yr Awdurdod Lleol yn ystod y flwyddyn?**<br>AL: Os oes newidiadau i ddisgybl a bod angen Cynllun Datblygu Unigol gan yr Awdurdod Lleol ar y disgybl yn ystod y flwyddyn, gellir dod â hynny i'r panel. Y flwyddyn ganlynol byddai'r disgyblion hyn yn cael eu tynnu o'r dyraniad dirprwyedig a'u cadw'n ganolog yn yr un modd â disgyblion eraill Cynllun Datblygu Unigol yr Awdurdod Lleol.<br><br>**SJ: Pa newidiadau fyddai'n cael eu gwneud i'r dyraniadau tair blynedd?**<br>AL: Symudiadau disgyblion i mewn ac allan o'r ysgol, ac unrhyw newidiadau i'r dyraniad CAM oherwydd galw ychwanegol a reolir yn fewnol gan yr ysgol.<br><br>**SR: Ar ba gyfradd fydd y cymorth yn seiliedig arni?**<br>AL: Gradd 3.<br><br>**SR: Mae angen i ni ystyried nad yw rhai disgyblion yn cael mynediad at gyn-feithrinfa, neu gall y cymorth sydd ei angen yn y feithrinfa fod yn wahanol i'r cymorth sydd ei angen mewn ysgol brif ffrwd.** |

| Rhif | Trafodaeth/Gweithredu |
|---|---|
| | AL: Gallwn ychwanegu hynny.<br><br>**SR: Os oes proses flynyddol gadarn, er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cael y CAM cywir, ni ddylai fod llawer o newid yn yr adolygiad tair blynedd?**<br>AL: Mae angen ystyried y prosesau manwl ymhellach, ond bydd yr addasiadau blynyddol yn adolygu dyraniadau CAM ar gyfer y gofynion ychwanegol hynny y mae'r ysgol wedi gorfod eu rheoli yn ystod y flwyddyn gan gynnwys disgyblion newydd, yn hytrach nag ar gyfer pob disgybl.<br><br>SJ: Bydd yr adolygiad 3 blynedd yn darparu gwaelodlin newydd ar gyfer y cyfnod nesaf.<br><br>**SR: A allwn ni adolygu'r 8.3% i sicrhau ei fod yn gywir?**<br>AL: Gallwn, gallwn adolygu hwn dros gyfnod y dair blynedd cyntaf.<br><br>**AL: Ydych chi'n meddwl y bydd y system yn gweithio?**<br>RSD / OM: Rydym yn cytuno bod y system yn ymddangos fel y system decaf, ymddengys ei bod yn lleihau biwrocratiaeth ac yn dal i fod yn seiliedig ar anghenion y disgyblion.<br><br>**OM: Pryd fydd ysgolion yn cael gwybod beth yw eu dyraniad sylfaenol?**<br>AL: Bydd angen i hwn fynd at y fforwm llawn i'w gymeradwyo, yna at yr ymgynghoriad ac yna i'r Cabinet. Byddwn yn gallu rhoi ffigur drafft erbyn diwedd mis Mawrth ond mae angen i ni ystyried ymhellach, gyda'r adran Gyfrifeg, y technegau sydd i'w cynnwys yn y fformiwla gyllid yn ystod 25/26. Yn 2026/2027 a'r blynyddoedd canlynol bydd yn y Dyraniad Fformiwla ac yn cael ei gynnwys pan fydd y drafftiau hyn yn cael eu rhannu fel arfer erbyn diwedd mis Chwefror.<br><br>Mae pawb yn cytuno i argymell y model arfaethedig i'r fforwm cyllideb lawn er mwyn i aelodau'r fforwm ei ystyried. |